
# Crynodeb o'n Cynigion

Mae Tyn y Coed yn System Storio Ynni Batri 500MW arfaethedig, wedi'i lleoli ar dir i'r gogledd-ddwyrain o bentref Llaneurgain, ger yr A55.



Mae'r tir o fewn ein cynnig tua 48 erw, a fyddai'n cynnwys seilwaith a thirlunio i sicrhau manteision amgylcheddol hirdymor i Sir y Fflint.

Byddai ein cynigion yn sicrhau cynnydd mewn enillion net bioamrywiaeth yn sylweddol uwch na safon y diwydiant ac yn caniatáu i natur ffynnu.



1 TYN Y COED - PROPOSED SITE LAYOUT PLAN
Scale: 1:2000@A1

NatPower

# Adeiladu a Gweithredu

## Adeiladu

Ar ôl sicrhau caniatâd cynllunio, rydym yn disgwyl dechrau adeiladu yn 2029. Byddai lefel y gweithgaredd ar y safle yn amrywio drwy gydol y cyfnod hwn.

Bydd NatPower yn paratoi Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu (CTMP) ac yn cytuno ar hyn gyda Chyngor Sir y Fflint. Bydd y CTMP yn nodi sut y byddwn yn rheoli gweithgareddau adeiladu ac unrhyw draffig sy'n symud i'r safle ac oddi yno.

Byddai mynediad i gerbydau adeiladu i'r safle yn cael ei ddarparu o'r gorllewin ar hyd slipffordd oddi ar yr A5119 (Heol Llaneurgain) i gyrraedd cornel de-orllewin y safle. Bydd pwynt mynediad brys eilaidd yn cael ei ddarparu ar ffin ogledd-orllewinol y safle, a fydd yn cysylltu â Starkey Lane.

## Gweithredu

Mae BESS yn gymdogion tawel ar y cyfan ac, unwaith y bydd yn weithredol, mae symudiadau traffig i ac o'r safle yn isel. Byddai tîm o beirianwyr cymwys yn monitro ein BESS 24/7 o leoliad oddi ar y safle. Byddai peiriannydd yn ymweld â'n safleoedd yn rheolaidd mewn cerbyd bach ddwy neu dair gwaith yr wythnos i archwilio'r BESS a'r seilwaith cysylltiedig.

Byddai'r BESS a'r is-orsaf yn cael eu diogelu gan ffensys diogelwch a'u monitro gan system teledu cylch cyfyng, a fyddai'n wynebu'r mannau storio batris ac is-orsafoedd. Byddem yn defnyddio synhwyro symudiadau a goleuadau isgoch i gadw goleuadau i'r isafswm posibl.

## Llinell Amser y Prosiect

- Haf 2024 – Cychwyn arolygon amgylcheddol ac ecolegol.
- Gwanwyn 2025 – Cwblhau gwaith arolygu a pharatoi gwaith cynllunio. Ymgynghori â'r gymuned a rhanddeiliaid allweddol.
- Hydref 2025 – Cyngor Sir y Fflint yn cyhoeddi penderfyniad ar y cais.
- Gwanwyn 2029 – Gwaith adeiladu yn dechrau.
- Haf 2030 – Gwaith adeiladu wedi'i gwblhau